



Cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU 2020

Crynodeb gweithredol



Gweithio gyda meddygon Gweithio dros gleifion

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol



Crynodeb gweithredol

Wrth i ni gyhoeddi ein rhifyn 2020 o ddogfen 'Cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU', mae hynt pandemig y coronafeirws (COVID-19) yn parhau i fod yn ansicr. Mae'n parhau i fod yn drychineb ddynol – un lle y gwelwyd niferoedd enbyd o bobl yn colli eu bywydau, yn ogystal â thrawma corfforol a seicolegol ar gyfer nifer o gleifion a'u teuluoedd.

Mae meddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gofalu am gleifion sydd â COVID-19 yn byw gyda'r ofn parhaus o ddal y feirws a'i drosglwyddo i'w teuluoedd. Trist nodi y gwelir y risg hwn mewn ffordd glir pan ystyrir nifer y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi colli eu bywydau. Mae'r pandemig wedi tarfu'n sylweddol ar addysg a hyfforddiant meddygol hefyd, wrth i brifysgolion gau ac wrth i gylchdroeon clinigol a drefnwyd gael eu canslo.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae meddygon wedi cael profiadau gweithio amrywiol – rhai yn

gadarnhaol, rhai yn negyddol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno amrediad o ddata gwreiddiol, gwaith ymchwil ac astudiaethau achos sy'n archwilio'r profiadau hyn trwy gydol anterth gyntaf y pandemig. Bydd effaith gronnyd y pandemig parhaus yn cymryd amser i'w mesur a'i deall. Ond mae'r ddirnadaeth uniongyrchol hon yn ein helpu i amlygu'r risgiau hirdymor a'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, y mae angen eu hystyried nawr.

Pennod 1 – Cyflwr arfer meddygol

Mae meddygon wedi profi newidiadau cyflym ac arwyddocaol i'w bywydau personol a phroffesiynol o ganlyniad i'r pandemig. Dadorchuddiodd 'Arolwg Baromedr 2020' yr effaith eang a gafodd cyfnod cynnar y pandemig ar fywydau gwaith dyddiol meddygon. Roedd pedwar o bob pump (81%) meddyg wedi profi newidiadau arwyddocaol i'w gwaith ac roedd dros dau o bob pump (42%) wedi cael eu hadleoli.


Yn ogystal, gwelwyd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gwneud nifer o newidiadau i'w harfer, er mwyn eu galluogi i barhau i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Adroddodd meddygon am rai newidiadau cadarnhaol – sef gwaith tîm a rhannu gwybodaeth – yr oeddent yn teimlo y byddai modd parhau gyda nhw y tu hwnt i'r pandemig.

O'i chymharu gyda 2019, gwelwyd cyfran uwch o feddygon yn gallu ymdopi gyda'u llwyth gwaith a chyfran lai mewn perygl o orweithio yn ystod chwe mis cyntaf 2020. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig gyda'r ffaith bod llwythi gwaith rhai meddygon yn llai gan bod triniaethau dewisol wedi cael eu gohirio neu eu canslo.

Ymhlith yr arwyddion cadarnhaol hyn, gwelwyd y pandemig yn amlygu rhai sialensiau a oedd yn bodoli eisoes. Roedd llwyth gwaith yn broblem i nifer o hyd. Yn ogystal, nododd un o bob tri meddyg (32%) bod cyfnod cychwynnol y pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd a'u lles meddyliol. A dywedodd cyfran gymharol uchel o feddygon eu bod wedi wynebu sefyllfaoedd lle'r oedd diogelwch meddyg (43%) neu glaf (26%) wedi cael ei beryglu.

Ffigwr 1: Effaith y pandemig ar agweddau ar arfer meddygol

Gan ystyried eich gwaith o ddydd i ddydd yn ystod pandemig COVID-19, a ydych chi'n teimlo y bu effaith gadarnhaol, effaith gymysg neu effaith negyddol ar y meysydd canlynol?



n = 3,693 (pob meddyg), 'arolwg Baromedr 2020', Q13_1-10

Pennod 2 – Cyflwr addysg feddygol

Mae'r pandemig wedi cael effaith arwyddocaol ar addysg feddygol ffurfiol. Gan ymateb i hyn, canslwyd cylchdroeon mis Ebrill ar gyfer yr holl feddygon dan hyfforddiant a chrëwyd swydd newydd (FiY1) er mwyn galluogi i rai o raddedigion ysgolion meddygol 2020 i ymuno â'r gweithlu yn gynnar. Cymeradwyom tua 550 o leoliadau hyfforddi ychwanegol, fel y byddai modd i feddygon a adleolwyd i'r rhain gyfrif y profiad hwn tuag at eu cynnydd gyda'u hyfforddiant.

Mae'n debygol y bydd y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig yn cael effaith aruthrol ar ddarpariaeth hyfforddiant yn y dyfodol.

Yn ystod anterth y pandemig yn ystod y gwanwyn, roedd bron i bob hyfforddai a hyfforddwr wedi profi newidiadau yn eu rolau o ddydd i ddydd. Yn arolwg hyfforddiant cenedlaethol (NTS) 2020, adroddodd dros hanner (57%) yr hyfforddeion a dros dri chwarter (78%) yr hyfforddwyr bod eu gwaith dyddiol wedi cael ei effeithio mewn ffordd sylweddol. Fel rhan o'r newid hwn, dywedodd tua dau o bob pump hyfforddai (41%) bod eu llwyth gwaith wedi cynyddu, a dywedodd tua'r un gyfran (39%) ei fod wedi ysgafnhau. Dim ond 17% o hyfforddeion ac 11% o hyfforddwyr a nododd nad oeddent wedi gweld unrhyw newid yn eu llwyth gwaith.

Hyd yn oed mewn amgylchiadau anodd, roedd hyfforddeion yn ystyried agweddau allweddol ar eu haddysg mewn ffordd gadarnhaol. Disgrifiodd bron i naw o bob deg (86%) hyfforddai bod eu goruchwyliaeth glinigol yn 'dda' neu'n 'dda iawn'. Fodd bynnag, yn ôl y disgwyl, effeithiodd y pandemig ar gyfleoedd hyfforddi a dysgu ffurfiol mewn ffordd sylweddol. Dywedodd tua tri chwarter yr hyfforddeion (74%) a'r hyfforddwyr (78%) y tarfwyd ar eu hyfforddiant neu eu rôl fel hyfforddwr. Arweiniodd hyn at ganlyniadau negyddol i'r rhan fwyaf o hyfforddeion, yn enwedig o ran cyfyngu ar eu cyfleoedd i sicrhau cymwyseddau gofynnol y cwricwlwm.

Roedd dros hanner (52%) yr holl hyfforddeion yn pryderu am eu diogelwch personol neu ddiogelwch personol eu cydweithwyr yn ystod anterth y pandemig yn ystod y gwanwyn. Roedd chwarter (24%) yn teimlo mai sylw rhannol a roddwyd i'w pryderon yn unig ac adroddodd 3% nas rhoddwyd sylw iddynt o gwbl. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod gan yr holl feddygon dan hyfforddiant amgylcheddau gwaith diogel.

Pennod 3 – Y gweithlu meddygol sy'n newid


Mae'r gweithlu meddygol yn parhau i dyfu, a gwelwyd cynnydd uwch nag erioed o'r blaen yn nifer y meddygon trwyddedig rhwng 2019 a 2020 (5%). Rhwng 2012 a 2020, gwelwyd nifer y meddygon trwyddedig yn tyfu dros 14%.

Mae gweithlu meddygol y DU yn un sy'n gynyddol amrywiol o ran ei ethnigrwydd. Nododd dros hanner (54%) y meddygon a ymunodd â'r gofrestr yn 2020 eu bod yn ddu ac o leiafrifoedd ethnig (BME). Mae nifer y graddedigion meddygol rhyngwladol (GMRhion) sy'n ymuno â gweithlu meddygol y DU yn parhau i godi. Rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Mehefin 2020, gwelwyd dros 10,000 o GMRhion yn ymuno – mwy na nifer y graddedigion o'r DU ac o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd gyda'i gilydd.

Mae'r niferoedd sydd mewn ysgolion meddygol wedi codi hefyd. Yn gyffredinol, mae nifer y myfyrwyr sy'n cychwyn mewn ysgol feddygol yn y DU bob blwyddyn wedi codi'n gyson rhwng blyneddod academaidd 2013/14 a 2018/19.

Mae gweithlu cynaliadwy yn dibynnu ar gadw gweithwyr yn ogystal â recriwtio gweithwyr. Rydym wedi dadansoddi grwpiau o feddygon a oedd wedi gadael y proffesiwn yn dilyn dwy brif garreg filltir yn eu gyrfa – yr ail flwyddyn sylfaen (F2) ac ar ôl sicrhau Tystysgrif Cwblhau Hyfforddiant (CCT) er mwyn bod yn arbenigwr neu'n feddyg teulu. Canfuom bod niferoedd y meddygon nad oeddent yn dod o'r DU yn uchel mewn ffordd anghymesur ymhlith y rhai a oedd yn gadael ar ôl F2 a bod meddygon a oedd wedi

Ffigur 2: Meddygon sy'n sicrhau trwydded i wneud gwaith meddygol, fesul ethnigrwydd, rhwng 2017 a 2020



cymhwyso y tu allan i'r DU yn y lle cyntaf yn fwy tebygol o adael yn fuan ar ôl sicrhau CCT.

Yn 'arolwg Baromedr 2020', dywedodd un o bob tri meddyg (36%) eu bod yn ystyried lleihau eu horiau clinigol, gostyngiad o bron i hanner (46%) a ddywedodd hynny yn 2019. Ond rydym yn

gweld o hyd bod un o bob deg (10%) meddyg wedi dweud eu bod yn ystyried gadael yn barhaol, sy'n cyd-fynd â'r ganran yn 2019. Mae'r ddirnadaeth hon, ynghyd â'r canfyddiadau am y rhai sy'n gadael ar ôl F2 ac ar ôl cwblhau CCT, yn dynodi ble y mae angen cymorth ychwanegol fwyaf efallai.


Pennod 4 – Dysgu o 2020

Er gwaethaf cost aruthrol – i iechyd personol a chymdeithas – y pandemig a'i effaith ar ddiogelwch ac iechyd meddyliol gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, mae ymateb y proffesiwn meddygol ac ymateb y system yn fwy cyffredinol wedi bod yn arbennig o dda. Mae'r newidiadau a wnaethpwyd – yn gyflym iawn ac mewn ffordd hyblyg iawn yn aml – yn dangos sut y mae modd cymryd camau arloesol buddiol o ran y ffordd trefnir gwaith meddygol.

Gall y newidiadau cadarnhaol a deimlodd meddygon – a drafodwyd ym mhennod 1 – gyfrannu at eu hymreolaeth, eu hymdeimlad o berthyn a'u cymhwysedd cyffredinol. Nodwyd y ffactorau hyn yn adroddiad '[Gofalu am feddygon](#) [Gofalu am gleifion](#)' fel rhai hanfodol ar gyfer lles meddygon a'u cymhelliant yn y gwaith, yn ogystal â'u gallu i ddarparu gofal diogel ac o ansawdd uchel i gleifion.

Mae ymgorffori'r dysgu cadarnhaol a'r newidiadau o 2020 yn bwysig i feddygon a chleifion. Dim ond gydag arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol y bydd hyn yn bosibl. Roedd meddygon o gefndir BME yn llai tebygol o fod wedi profi newidiadau cadarnhaol na meddygon gwyn. Mae'n hanfodol bod y ffyrdd gwell o weithio yn cael eu hymestyn i bawb yn yr un modd.

Yn erbyn cefndir o alw cynyddol am ofal a llwythi gwaith sy'n cynyddu, mae cynyddu cyflenwad meddygon yn ogystal â chynorthwyo lles meddygon yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r system. Nid yn unig y bydd hyn yn cynnwys mesurau i gadw meddygon, ond hefyd, mesurau i gynyddu llif y meddygon o wledydd tramor i'r DU a sicrhau bod addysg a hyfforddiant meddygol mor hyblyg ag y bo modd.



E-bost: gmc@gmc-uk.org

Gwefan: gmc-uk.org

Ffôn: 0161 923 6602

